


# Polisi ABCh

**Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol:** 28 Mawrth 2019

Llofnod y Cadeirydd: ______________________________

**Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol:**

Llofnod y Cadeirydd: ______________________________

**Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol:**

Llofnod y Cadeirydd: ______________________________

# POLISI ADDYSG BERSONOL A CHYMDEITHASOL

## Beth yw ABCh?

Yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin mae'r cwricwlwm bugeiliol yn rhan bwysig o'r cwricwlwm cyfan ac yn sicrhau ein bod fel ysgol yn datblygu pob unigolyn yn ysbrydol, yn foesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol ac yn paratoi'r disgyblion am gyfleoedd, cyfrifoldebau a bywyd fel oedolyn

Mae ABCh yn cynnwys popeth a wneir gan yr ysgol i hyrwyddo datblygiad personol achymdeithasol ein disgyblion. Mae hyn yn cynnwys yr holl brofiadau a chyfleoedd dysgu a gynlluniwyd sydd yn digwydd nid yn unig yn yr ystafell ddosbarth ond hefyd mewn meysydd eraill yn yr ysgol sydd yn rhan o ethos a bywyd cymunedol ein hysgol, e.e.:

- Gofal a chyfarwyddyd bugeiliol
- Gwersi a sesiynau a gynlluniwyd
- Addysgu a dysgu ymhob pwnc
- Dangos parch i'r disgyblion
- Hybu perthynas bositif a hunan barch
- Defnyddio'n effeithiol ein cysylltiadau â'r gymuned leol ac ehangach
- Monitro a chynnal datblygiad
- Profiadau allgyrsiol
- Cyfleoedd i fod yn rhan o wneud penderfyniadau
- Ymddygiad positif yn unol â pholisi hybu ymddygiad cadarnhaol yr ysgol

## Pwrpas y Polisi

Ysgrifennwyd y polisi fel ymateb i Fframwaith ABCh 2008 a'r Fframwaith Sgiliau. Bydd yn nodi ein nodau a'n hamcanion ar gyfer ABCh ac yn cynnwys y rhaglen gyflwyno a gynlluniwyd gan yr ysgol ar gyfer y blynyddoedd gwahanol.

Dylid darllen y polisi ochr yn ochr â'r polisïau eraill cysylltiedig megis polisi:

- Addysg Rhyw a Pherthnasoedd
- Bwyd a ffitrwydd
- Camddefnyddio sylweddau
- Addoli ar y Cyd
- Gwrth fwlio
- Hybu ymddygiad cadarnhaol
- Diogelu plant
- Cyfle Cyfartal
- Cydraddoldeb
- Addysg Iechyd

## Nodau ABCh

- Galluogi disgyblion i fyw bywydau diogel ac iach
- Paratoi disgyblion ar gyfer y dewisiadau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â dysgu gydol oes

- Datblygu hunan-dyb y disgyblion a'u hymdeimlad o gyfrifoldeb personol
- Hybu hunan -barch, parch at eraill a dathlu amrywiaeth
- Galluogi'r disgyblion i gyfrannu yn eu hysgolion a'u cymunedau fel dinasyddion gweithgar a chyfrifol yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang
- Meithrin agweddau ac ymddygiad cadarnhaol tuag at egwyddorion datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang
- Paratoi'r disgyblion ar gyfer y sialensau, y dewisiadau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â gwaith a bywyd oedolyn

## Cyflwyno ABCh

### Rheoli'r Rhaglen

Y Pennaeth Cynorthwyol, Mr Jonathan Thomas fydd yn gyfrifol am reoli'r rhaglen ABCh a gyflwynir mewn trafodaeth a chydweithrediad gyda'r Penaethiaid Blwyddyn. Adnewyddir y cynlluniau yn flynyddol wedi derbyn adborth gan y tîm o diwtoriaid sydd wedi cyflwyno'r rhaglen ac adborth gan y disgyblion er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn ymateb i ofynion y Fframwaith.

Rhaid cofio bod ABCh yn rhan o gyfrifoldeb pawb yn yr ysgol ond cyflwynir y rhaglen ABCh yn ffurfiol gan y Tiwtoriaid dosbarth gyda chymorth ymwelwyr a siaradwyr o asiantaethau allanol gan ddefnyddio:

- y wers a glustnodir unwaith y pythefnos ar yr amserlen yn ogystal â
- chyfnodau pan y cynhelir gwasanaeth dosbarth byr pan nad oes gwasanaeth gan y dosbarth yn y neuadd neu'r ffreutur
- defnyddir diwrnodau di-amserlen i gynnal gweithdai yn ystod y flwyddyn er mwyn cyflwyno agweddau o'r themâu i'r gwahanol flynyddoedd

Atgyfnerthir agweddau o'r themâu ABCh yn ogystal:

- yn y gwasanaethau boreol a gynhelir yn y neuadd / ffreutur
- mewn gweithgareddau allgyrsiol
- mewn gweithgareddau wythnos trawsgwricwlaidd
- yn y gwersi pynciol - gyda'r manylebau newydd y mae'r meysydd pynciol hefyd yn cyfrannu at yr agweddau o ABCh sydd yn berthnasol i'w pynciau
- yn y berthynas ffurfiol ac anffurfiol o ddydd i ddydd rhwng y staff a'r disgyblion

## Dulliau Dysgu ac Addysgu

Yr ydym fel ysgol yn dilyn strategaethau Asesu ar gyfer dysgu ar draws y pynciau ac yr ydym yn annog defnyddio'r dulliau yma yn y gwersi ABCh gan eu bod yn adlewyrchu nodau ABCh. Mae adnoddau rhyngweithiol ar gael ar 'w' dreif yr ysgol.

Disgwylir i'r disgyblion gyfrannu mewn amrywiol ffyrdd yn ystod y gwersi ABCh er mwyn datblygu eu sgiliau personol a chymdeithasol. Bydd y rhaglenni yn gofyn i'r athrawon i hyrwyddo yn hytrach nac addysgu er mwyn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Mae'r rhaglenni ABCh wedi eu llunio gan sicrhau bod digon o gyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu y sgiliau hanfodol yn unol â gofynion y Fframwaith Sgiliau.

## Asesu

Asesir y dysgu trwy weithgareddau arferol ABCh ac ym mywyd bob dydd yr ysgol. Bydd y staff yn cael cyfleoedd i lunio barn broffesiynol ar y disgyblion sydd yn gyfarwydd iddynt. Bydd y disgyblion yn cael cyfle cyson yn y rhaglen ABCh i'w hasesu eu hunain ac i fyfyrio ar eu cynnydd hwy a'u cyfoedion

## Asesir

- gwybodaeth a dealltwriaeth trwy amrywiaeth o dasgau yn yr ystafell ddosbarth
- sgiliau, trwy i athrawon neu gyfoedion arsylwi ar sefyllfaoedd rhyngweithiol megis chwarae rôl
- agweddau a gwerthoedd wrth i athrawon sylwi ar barodrwydd disgyblion i fod yn gyfrifol, i barchu eraill, i werthfawrogi dysg a gofalu am eu hamgylchedd

Bydd cyflawniadau disgyblion ym maes ABCh yn ffurfio rhan o'r system adroddiadau arferol i rieni ac yn darparu adborth hanfodol i ddisgyblion am eu datblygiad.

## Staffio ac Hyfforddi

Yn yr ysgol hon dysgir elfennau ystafell ddosbarth ABCh gan diwtoriaid dosbarth fel rhan o'r rhaglen fugeiliol. Ym mlwyddyn 8 a 9 mae'r tiwtoriaid yn gyfrifol am unedau penodol sydd yn golygu bod y disgyblion yn cylchdroi grwpiau yn ystod y flwyddyn. Ym mlynyddoedd 7, 10,11,12,13 mae'r tiwtoriaid yn aros gyda'u dosbarthiadau ac yn addysgu'r unedau i gyd yn rhaglen y flwyddyn. Mae Tiwtoriaid Dosbarth Bl.10 yn aros gyda'r disgyblion tan ddiwedd blwyddyn 11.

Er mwyn sicrhau bod y staff yn gysurus yn addysgu'r unedau, yn enwedig yn y meysydd sydd yn arbennig o sensitif, rydym fel ysgol yn ceisio darparu hyfforddiant a chymorth digonol i sicrhau bod staff yn addysgu yn hyderus ac o gryfder. Lle nad yw aelod o staff yn teimlo eu bod yn medru delio ag agwedd ar ABCh gwneir trefniadau i'r Pennaeth Blwyddyn neu'r Pennaeth Cynorthwyol ddarparu'r agwedd hon.

## Monitro ac Arfarnu

Cofnodir y gwaith a wneir yn y gwersi ABCh yn Ffeiliau Cynnydd y disgyblion.
Archwilir y ffeiliau yn rheolaidd gan y Tiwtor Dosbarth ac yn achlysurol yn ystod y flwyddyn gan y Pennaeth Blwyddyn a'r Tîm Rheoli.

Defnyddir taflenni gwerthuso disgyblion i gael ymateb i wahanol rannau o'r rhaglen ABCh
Bl.12/13 yn derbyn taflen gwerthuso'r ddarpariaeth ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn addasu'r rhaglen ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

# Polisi Datblygiad Personol a Chymdeithasol yr Unigolyn

## Rhaglen y flwyddyn 2013/14 – Cyfnod Allweddol 3-Blwyddyn 7

### Nod ac Amcanion y gwersi ABCh

Mae ABCh yn paratoi'r dysgwr i weithredu'n effeithiol yn bersonol ac yn gymdeithasol drwy ddarparu profiadau dysgu lle gallant ddatblygu a defnyddio sgiliau archwilio a gwerthoedd personol er mwyn caffael gwybodaeth a dealltwriaeth briodol. Sicrheir bod y broses drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r uwchradd yn un hapus a hyfforddir y disgyblion i ymdopi â newidiadau yn eu bywydau. Darperir cyfle hefyd i ddisgyblion hunanasesu eu cynnydd ar hyd y flwyddyn gyntaf ym Mro Myrddin.

SGILIAU A DDEFNYDDIR



## Cynnwys y Rhaglen ABCh ar gyfer blwyddyn 7 2013 – 2014

| TESTUN | CYNNWYS |
|---|---|
| Llawlyfr Tiwtor Disgybl | Esboniad o'r Llawlyfr Tiwtor Disgybl. Defnyddir y Llawlyfr ar hyd y flwyddyn er mwyn gosod targedau a chofnodi cynnydd a llwyddiannau'r disgyblion. |
| Myfi yw fi | • Pwy ydw i?<br>• Rhinweddau personol<br>• Cerdyn hunaniaeth<br>• Dechrau ym Mro Myrddin<br>• Rheolau a threfniadau'r ysgol uwchradd<br>• Cymunedau – canolbwyntio ar gymuned yr ysgol a'u pwysigrw i'r gymuned honno<br>• Croeso i Gymru – ystyriaeth o'r hyn sy'n bwysig iddynt o ran eu hunaniaeth<br>• Ffrindiau a pherthnasau iach<br>• Pwysau cyfoedion<br>• Bwlio – pwy sy'n dioddef a sut i ddelio â sefyllfaoedd o'r fath<br>• Siber-fwlio<br>• Diogelwch Noson Tân Gwyllt |
| Cadw'n iach a diogel | • Rhwydweithiau cymdeithasol – sicrhau diogelwch tra'n defnyddio<br>• Peryglon sy'n wynebu disgyblion blwyddyn saith – yn y cartref, y daith i'r ysgol a thu allan.<br>• Diet cytbwys – bwydydd iach a nodweddion diet cytbwys<br>• Addysg ariannol a llunio bwydlenni â swm penodol o arian<br>• Golchi dwylo – hylendid personol |
| Peryglon Byd-eang | • Rhinweddau dinesydd byd-eang effeithiol<br>• Pwysigrwydd dŵr i'r byd a chymharu'r defnydd o ddŵr Nghymru ac mewn gwlad datblygedig<br>• Cyflwyno cynhesu byd-eang – achosion ac effeithiau<br>• Dadleuon o blaid ac yn erbyn cynhesu byd-eang<br>• Cyflwyno manteision ac anfanteision egni adnewyddol<br>• Ailgylchu – adnabod deunyddiau addas i'w hailgylchu a'r mante o'u hailgylchu<br>• Astudiaeth achos 'Anifeiliaid o dan fygythiad' – adnabod y ma o anifeiliaid sydd o dan fygythiad a'r ffyrdd posibl o'u cynorthwyo<br>• Gwaith ymchwil am fudiadau rhyngwladol sy'n cynorth anifeiliaid o dan fygythiad |
| Codi Safonau | • Pwysigrwydd adolygu<br>• Dulliau adolygu amrywiol<br>• Llunio amserlenni adolygu |

| | |
|---|---|
| | • Gwerthuso sgiliau a chryfderau<br>• Creu targedau ar gyfer y flwyddyn nesaf |

## Trefn Cyflwyno'r Rhaglen

• Pennaeth blwyddyn a thiwtoriaid dosbarth yn cyflwyno'r rhaglen gyfan yn seiliedig ar lyfrynnau ABCh penodol. Fe fydd siaradwyr gwadd yn ymweld â disgyblion ar hyd y flwyddyn er mwyn atgyfnerthu ambell bwnc.

## Trefn Monitro a Gwerthuso'r Rhaglen

• Adborth gan y tiwtoriaid dosbarth mewn cyfarfodydd rheolaidd.
• Pennaeth blwyddyn yn monitro ffeiliau ABCh yn dymhorol.
• Tiwtoriaid dosbarth a disgyblion yn gwerthuso'r gwaith ar ddiwedd pob uned.

# Polisi Datblygiad Personol a Chymdeithasol yr Unigolyn

### Rhaglen y flwyddyn 2013/14 – Cyfnod Allweddol 3-Blwyddyn 8

## Nod ac Amcanion y gwersi ABCh

Mae ABCh yn paratoi'r disgyblion ar gyfer bywyd yn yr unfed ganrif ar hugain a fydd yn diwallu anghenion pob dysgwr unigol. Rhaid sicrhau fod pob disgybl yn datblygu ac yn defnyddio ei dalent i'w lawn botensial. Rhaid annog pob disgybl i gyfrannu'n llawn i bob agwedd o fywyd ysgol.

SGILIAU A DDEFNYDDIR



## Cynnwys y Rhaglen ABCh ar gyfer blwyddyn 8 - 2013/14

| TESTUN | CYNNWYS |
|---|---|
| Llawlyfr Tiwtor- Disgybl | Tiwtor dosbarth yn cwrdd a'i disgyblion dwy waith y flwyddyn ac yn trafod eu targedau pynciol. Y disgyblion yn gosod tair targed ei hunain-dwy yn ymwneud a'i gwaith ac un yn ymwneud a'i bywyd yn yr ysgol. |
| e-Ddiogelwch | Sicrhau ein bod yn amddiffyn ein dysgwyr ac yn eu haddysgu sut i wneud defnydd cyfrifol a diogel o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. |
| Bwyta'n Iach | Cadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach. |

| | |
|---|---|
| Byw'n Iach | Unedau ar arferion sy'n niweidiol i iechyd yr unigolyn ac i gymdeithas – alcohol, ysmygu, HIV ac AIDS, hap chwarae. |
| Addysg Gyrfaol Blwyddyn 8 | Mae'r rhaglen cyfrifiadurol 'FastTomato' yn caniatau i ddisgyblion archwilio cyfleoedd gyrfa ar draws ystod o sectorau. Yn ogystal mae'r disgyblion yn gallu cyflawni holiadur personol i wella ei ymwybyddiaeth o'i sgiliau personol ac i weld pa swyddi sydd o bosib yn cyfateb i'w cryfderau. |

## Trefn Cyflwyno'r Rhaglen

- Pennaeth blwyddyn a thiwtoriaid dosbarth yn cyflwyno'r uned y maent yn gyfrifol amdano ar rota i'r dosbarthiadau. Fe fydd siaradwyr gwadd yn ymweld â disgyblion ar hyd y flwyddyn er mwyn atgyfnerthu ambell bwnc.

## Trefn Monitro a Gwerthuso'r Rhaglen

- Adborth gan y tiwtoriaid dosbarth mewn cyfarfodydd rheolaidd.
- Tiwtoriaid dosbarth a disgyblion yn gwerthuso'r gwaith ar ddiwedd pob uned.

# Polisi Datblygiad Personol a Chymdeithasol yr Unigolyn

## Rhaglen y flwyddyn 2013/14.Cyfnod Allweddol 3-Blwyddyn 9.

## Nôd ac Amcanion y gwersi ABCH.

Mae ABCh yn paratoi'r dysgwr i fod yn effeithiol yn bersonol ac yn gymdeithasol drwy ddarparu profiadau dysgu lle gallant ddatblygu a defnyddio sgiliau, archwilio a gwerthoedd personol a chaffael gwybodaeth a dealltwriaeth briodol.

**SGILIAU A DDEFNYDDIR**



Cynnwys y Rhaglen ABCh ar gyfer blwyddyn 9, 2013/14

| Testun | Cynnwys |
|---|---|
| Ffeil Cynnydd / Llawlyfr tiwtor / disgybl | Esboniad o'r Ffeil Cynnydd. Dylai'ch ffeil gynnydd gynnwys gwybodaeth a dangos eich targedau sy'n profi eich bod yn dangos cynnydd ym mlwyddyn 9. |
| Addysg Ariannol | Cyflwyno costau byw, cyfrifon banc, debyd |

| | |
|---|---|
| | uniongyrchol a bancio ar lein (MWJ) |
| Camddefnyddio sylweddau | Trafod peryglon, ffeithiau ac effeithiau cyffuriau gwahanol a thrafod cosbau (NB) |
| Cymreictod | Cyfle i'r dysgwyr wneud 'Taith Iaith' bersonol. Beth yw bod yn Gymro / Cymraes a faint ydynt yn ei wybod am y Gymraeg (GJ) |
| Gwersi Gyrfa Cymru ar lein / Kudos | Cyfle i'r dysgwr gofrestru ar lein.<br>Rhaglen Kudos yn awgrymu gyrfaoedd(MM) |
| Dinasyddiaeth | Cyfle i greu Maniffesto a phleidleisio. Dysgu am Hawliau a chyfiawnder ieuenctid (LH) |
| Diwrnod Dewisiadau | Diwrnod oddi ar yr amserlen ar gyfer gweithgareddau gwahanol :<br>• Llyfryn Dewisiadau<br>• Prosiect Dynamo (Entrepreneur)<br>• Gyrfa Cymru<br>• Gwersi blasu ( pynciau newydd) |
| Diwrnod 'Teimlo'n Dda' | Diwrnod oddi ar yr amserlen ar gyfer gweithgareddau gwahanol :<br>• Diogelwch ar y rhyngrwyd.<br>• Dulliau ymdopi â phwysau<br>• Sut i ddelio ac emosiynau? |

**Trefn Cyflwyno'r Rhaglen**

- Tiwtoriaid Dosbarth yn cyflwyno'r uned y maent yn gyfrifol amdano ar rota i'r dosbarthiadau.

$9^1$ →Marc Morris Ystafell I6

| | |
|---|---|
| Gyrfa Cymru / Kudos | Cyfle i'r dysgwr gofrestru ar lein.<br>Rhaglen Kudos yn awgrymu gyrfaoedd(MM) |

$9^2$ → Gwyn Jones Ystafell I11

| | |
|---|---|
| Cymreictod | Cyfle i'r dysgwyr wneud 'Taith Iaith' bersonol. Beth yw bod yn Gymro / Cymraes a faint ydynt yn ei wybod am y Gymraeg (GJ ) |

$9^3$ → Nerys Blue Ystafell AG2

| | |
|---|---|
| Camddefnyddio sylweddau | Trafod peryglon, ffeithiau ac effeithiau cyffuriau gwahanol a thrafod cosbau (NB) |

$9^4$ →Meinir Wyn Jones Ystafell I2

| | |
|---|---|
| Addysg Ariannol | Cyflwyno costau byw, cyfrifon banc, debyd uniongyrchol a bancio ar lein (MWJ) |

$9^5$ →Leony Hall Ystafell TG3

| | |
|---|---|
| Dinasyddiaeth | Cyfle i greu Maniffesto a phleidleisio. Dysgu am Hawliau a chyfiawnder ieuenctid (LH) |

**Trefn Monitro a Gwerthuso'r Rhaglen**

- Adborth gan y tiwtoriaid Dosbarth ar y daflen hunanwerthuso'r dysgwr ac mewn cyfarfodydd tymhorol gyda'r Pennaeth Blwyddyn.

## Polisi ABCh – Cyfnod Allweddol 4 (2013-15)

Mae polisi ABCh yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi ei seilio ar y ddogfen **'Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru' a chafodd ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn 2008.**

Mae cynnwys y rhaglen wedi ei strwythuro yn ôl yr ystod a amlinellir yn y Fframwaith sef:

Dinasyddiaeth Weithgar
Iechyd a Lles Emosiynol
Datblygiad Moesol ac Ysbrydol
Paratoi ar gyfer Dysgu Gydol Oes
Datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang

Cynllunnir y ddarpariaeth i roi'r cyfleodd i ddisgyblion datblygu eu sgiliau Meddwl, TGCh, Rhif, Cyfathrebu, Gwella'ch Dysgu eich Hun a Gweithio Gydag Eraill fel yr osodir yn y Fframwaith.

O Fedi 2013 ymlaen mae'r rhaglen yn cynnwys:

**Dinasyddiaeth Weithgar**
Sesiwn gan Miss Lorena Prist ar yr Undeb Ewropeaidd
Sesiwn gan Mrs Nerys Evans a Mr Llŷr Huws Griffiths AC ar ddatganoli a rôl a swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Gwers Tiwtor ar bwerau'r Cynulliad
Gwers Tiwtor ar y Genhedloedd Unedig

**Iechyd a Lles Emosiynol**
Gwersi Tiwtor ar Alcohol, Peryglon Gamblo, Cyffuriau ac Anhwylderau Bwyta.
Sesiwn gan yr Heddwas Cymunedol ar Ddiogelwch Rhyngrwyd
Sesiwn gan Nyrsys Cymunedol ar Rhyw ac Afiechydon Rhywiol
Sesiwn CEOP yn seiliedig ar yr adnodd 'Exploited' yn trafod nodweddion perthynas iach a sut i adnabod ecsploetio o fewn perthynas
Sesiwn gan Hafan Cymru ar berthnasau.

**Datblygiad Moesol ac Ysbrydol**

Mae gofynion yr adran yma o'r Fframwaith yn cael ei chyflawni trwy wersi Addysg Grefyddol gorfodol yng Nghyfnod Allweddol 4 lle trafodir cwestiynau a materion sy'n ymwneud ag ystyr a phwrpas bywyd.

**Paratoi ar Gyfer Dysgu Gydol Oes**

Trwy gydol Cyfnod Allweddol 4 fe fydd y disgyblion yn gweithio o fewn eu cyfrifon www.gyrfacymru.com i ddatblygu eu Ffeiliau Cynnydd electronig. Byddwn yn creu CV, Datganiad Personol, Adroddiad Profiad Gwaith ac yn nodi ei sgiliau, cymwysterau a gobeithion gyrfa o fewn y safwe. Byddwn yn hefyd cael y cyfle i ymchwilio i feysydd a sectorau o'r economi sydd o ddiddordeb iddynt wrth greu Cwmwl Sgiliau personol fel eu bod yn ymwybodol o'u cryfderau a gwendidau fel gweithwyr y dyfodol.

Cynhelir wythnos o Brofiad Gwaith ar ddiwedd Blwyddyn 10 ac mae yna ddwy gynhadledd/diwrnod Profiad Gwaith i atgyfnerthu a gwerthuso'r broses. Yn ystod y diwrnodau yma ceir siaradwyr STEM, entrepreneuriaid lleol a siaradwyr Syniadau Mawr Cymru.

Mae'r disgyblion ym Mlwyddyn 10 yn mynychu Cynhadledd Gyrfau ym Marc y Sgarlets. Cynhelir Ffug Gyfweliadau ym Mlwyddyn 11 yn ogystal â Gwasanaeth arbennig ar ddiwedd y Cyfnod Allweddol lle cyflwynir y disgyblion gyda copïau caled o'u ffeiliau cynnydd.

**Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd Eang**

Sesiynau Tiwtor ar Fasnach Deg a Newid Hinsawdd

Defnyddir amrywiaeth o ddulliau i werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth ABCh yng Nghyfnod Allweddol 4 ac fe adolygir y rhaglen yn flynyddol.

| **Fframwaith ABCH – CA3**<br>**Awdit o gyfraniad adrannau i'r fframwaith?** | | | |
|---|---|---|---|
| **Themau:** | **Adran** | **Bl** | **Natur y gwaith** |
| **1.Dinasyddiaeth weithgar** | | | |
| Datblygu parch atynt eu hunain ac eraill | Cymraeg<br><br><br><br>Drama<br><br><br><br><br>Addysg Grefyddol<br>ABCh | 7<br><br>9<br><br>8<br><br><br><br><br>8<br>7-9 | Ymsefydlu yn yr ysgol. Ymateb i gerdd, ysgrifennu dyddiadur<br>Ymateb i gerdd sy'n trafod teimladau disgybl sy'n cael ei fwlio.<br>Pecyn ''Parch'' - Perfformiadau gorffenedig yn seiliedig ar drafodaethau am barch/diffyg parch. e.e Vicky Pollard a'i gwahodd ar daith i'r ysgol. Edrych a'r gymeriadau gwahanol a sut orau i ymateb mewn gwahanol sefyllfaoedd.<br>Dameg y Samariad Trugarog. Y Gorchymyn Mawr<br>Ymweliad PC Cath Williams |
| Gwerthfawrogi a dathlu amrywiaeth a chydraddoldeb | Drama<br><br><br><br>Addysg Grefyddol | 7<br><br><br><br>8<br>9 | Pecyn ''Billy" - Perfformio sgript wed'i ei baratoi'n barod yn edrych ar bwysau cyfoediom i fod yn atyniadol ar y tu allan, zits ac ymddwyn yn cŵl. Actir sefyllfa yn y cartref ac ar fws ysgol.<br>Ffordd o Fyw: bwyd/gwisg/Ympryd<br>A Yw'n deg; MLK |
| Anghyfiawnder, ecsbloetio a gwrthod hawliau dynol | Saesneg<br>Cymraeg<br>Hanes<br><br>Daearyddiaeth<br><br><br>Drama | 9<br>9<br>8<br>9<br>8<br><br><br>7 | 'Hawliau plant' – llythyr a gwaith trafod<br>Mynegi barn am lafur plant<br>Cyfres o wersi yn ymwneud â chaethwasiaeth.<br>Gwrthryfel Merthyr 1831, Beca.<br>Tasg 6 - Het de Bono ar y thema 'Llafur Plant'.<br>Mae'r disgyblion hefyd yn cael y profiad o brofi bywydau llafurwyr plant yn y wers 'Bagiau papur'.<br>Pecyn "Bwlian" - Edrych ar fwlian yn yr ysgol. Astudio cerddi fel sbardun i waith ymarferol. Defnyddio rhythm geiriau i bwysleisio teimladau dioddefwyr a bwlis. Defnyddio ystadegau am fwlian fel sbardun i waith ymarferol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Addysg Grefyddol<br>ABCh<br>ABCh | 9<br><br>7-9<br>8 | Rhagfarn a gwahaniaethu<br><br>Ymweliad PC Cath Williams – School Beat.Org<br>E-Ddiogelwch – uned arbennig |
| Cyfranogi yn yr ysgol a'r gymuned ehangach | Hanes<br><br>Drama | 9<br><br>9 | Y broses o ddiwygio seneddol yn y 19eg ganrif a'r hawl i bleidleisio yn cael ei ymestyn.<br>Pecyn Ieuenctid a Henaint - Defnyddio cerddi a thrafodaethau yn cynnwys barn ystrydebol yr ifanc am y genhedlaeth hŷn a'r genhedlaeth hŷn am y genhedlaeth iau. Gwaith ymarfeol yn defnyddio cymeriadau o'r ddwy genhedlaeth mewn gwahanol sefyllfaoedd cymdeithasol. |
| Hawliau disgyblion | Saesneg<br>Drama | 9<br>8 | UNICEF – edrych ar bolisiau yr elusen<br>Pecyn Gwrthdaro - Trafodath ar beth yw gwrthdaro, pam mae'n digwydd a phwy sy'n gwrthdaro. Edrych ar ddwy ochr dadl, clywed dau farn ac yna cymodi neu gytuno i anghytuno. |
| Eu cyfrifoldebau fel dinasyddion ifanc yng Nghymru | Hanes<br>Daearyddiaeth<br><br><br>Drama<br><br><br><br>Addysg Grefyddol | 9<br>9<br><br><br>9<br><br><br><br>9 | Rhyfel Byd Cyntaf a Chenedlaetholdeb<br>Ymholiad 'Gweithio gydag Eraill' ar Gynhesu Byd-eang. Maent yn ystyried y dulliau o leihau effeithiau cynhesu byd-eang.<br>Pecyn Mewn Limbo - Darllen a dadansoddi "Mewn Limbo" drama fer gan Gwyneth Glyn sy'n delio gyda phroblemau llencyndod, pwysau rhieni, anhawsterau dysgu a dyslecsia, cwympo mewn cariad a hiliaeth.<br>Ymrwymiad a chyfrifoldeb o fewn crefyddau |
| Egwyddorion democrataidd yng Nghymru, y DU a'r EU | Daearyddiaeth | 8 | Gwers ar y thema 'Beth yw'r Undeb Ewropeaidd ?'. Mae'r disgyblion yn dod i ddeall beth yw amcanion yr UE. |
| Sut y caiff cynrychiolwyr e.e. Cyngor ysgol, Aelodau Seneddol eu hethol a beth yw eu swyddogaethau | Hanes<br>ABCh | 9<br>9 | Gwers ar Ddemocratiaeth<br>Ysgrifennu maniffesto ar gyfer etholiad |
| Sut y gall pobl ifanc leisio eu barn a dylanwadu ar y broses | Daearyddiaeth | 7/8 | Wrth gwblhau tasgau Het de Bono mae'r disgyblion yn mynegu barn (Yr Het Goch) ac yn cynnig datrysiadau (Yr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Het Werdd) a 'Ddyfodol y Goedwig Law' (Bl7) a 'Llafur Plant' (Bl8) |
| Sut i adnabod rhagfarn, hiliaeth a stereoteipio a sut i'w herio | Hanes<br><br><br>Gwyddoniaeth<br><br>Drama<br><br><br><br>Addysg Grefyddol | 9<br><br><br>8<br><br>9<br><br><br><br>9 | Y sgil o werthuso ffynonellau yn cael ei addysgu'n gyson trwy'r Cyfnod Allweddol; e.e. posteri propaganda Rhyfel Byd Cyntaf<br>Cyfle i drafod tueddfryd rhywiol a rhagfarn yng ngwersi yr uned 'Tyfu'<br>Pecyn Mewn Limbo - Darllen a dadansoddi "Mewn Limbo" drama fer gan Gwyneth Glyn sy'n delio gyda phroblemau llencyndod, pwysau rhieni, anhawsterau dysgu a dyslecsia, cwympo mewn cariad a hiliaeth.<br>Hanes Anne frank a Martin Luther King |
| Y system cyfiawnder troseddol | ABCh | 9 | Rhaglen BBC / Ar y stryd – cyngor ar y system cyfiawnder |
| Materion sy'n ymwneud a mynediad o fewn y gymuned a'r gallu i wahaniaethu rhwng gwahanol lefelau o anghenion dysgu ac anabledd | ABCh | 9 | Rhaglen BBC / Ar y stryd |
| Materion amserol ar lefel leol a byd-eang | Saesneg<br>Cymraeg<br>Daearyddiaeth | 9<br>9<br>7<br>8<br><br>9 | Digartrefedd yn lleol – Shelter Cymru<br>Mynegi barn am broblemau ffonau symudol<br>Cwblhau Aseiniad Allweddol ar ddyfodol y goedwig law<br>Cwblhau Aseiniad Allweddol ar effaith twristiaeth ar ynys Mallorca<br>Cwblhau Aseinaid Allweddol ar achosion ac effeithiau Tsunami ac yn gwneud ymholiad ar Gynhesu Byd-eang. |
| **2. Iechyd a lles emosiynol** | | | |
| Y berthynas rhwng deiet, ymarfer corff ac iechyd a lles | Addysg Gorfforol<br><br><br>Gwyddoniaeth<br>Addysg Grefyddol<br><br>ABCh | 7,8,a 9<br><br><br>7<br>7<br><br>8 | Hanner tymor o waith ar ffitrwydd / iechyd yn flynyddol. Canolbwyntio ar yr ochor ymarfer ond hefyd yn cyfeirio at bwysigrwydd diet cytbwys / iach<br>Uned 'Y Corff'<br>Arferion bwyta credinwyr crefyddol ac ympryd a'r cysylltiad rhwng diet a chred.<br>Bwyta'n Iach / Ffitrwydd |
| Effaith niweidiol tybaco, alcohol a chyffuriau | Drama | 9 | Cyfres o wersi yn delio â nifer o broblemau sy'n wynebu'r ifanc, o bwysau cyfoedion i yfed o dan oedran, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | <br>ABCh<br><br>ABCh<br><br>ABCh | <br>9<br><br>8<br><br>8 | pwysigrwydd ffitio i mewn a bod yn ddigon dewr i fod yn unigolion.<br>Adnabod effeithiau gwahanol gyffuriau. Gwybodaeth gyfreithiol a chyffredinol am gyffuriau.<br><br>Ymweliad diwrnod – Effaith alcohol – PC Cath Williams – School Beat. Org<br>Problemau alcohol – uned arbennig |
| Y gyfraith sy'n ymwneud ag agweddau ar ymddygiad rhywiol | Gwyddoniaeth<br><br>Addysg Grefyddol | 8<br><br>9 | Cyfle i drafod y gyfraith a materion rhywiol yn y gwersi yn yr uned 'Tyfu'<br>Credoau Crefyddol ar ryw cyn priodas/ godineb/ysgariad |
| Gwybodaeth am atal cenhedlu, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a HIV o fewn cyd-destun perthnasoedd | Gwyddoniaeth<br><br>ABCh<br>Addysg Grefyddol<br>ABCh | 8<br><br>8<br>9<br>9 | Cyfle i drafod atal cenhedlu a rhai materion heintiau rhywiol sylfaenol yn y gwersi yn yr uned 'Tyfu'<br>HIV ac Aids – uned arbennig<br>Credoau crefyddol am atal-genhedlu e.e y Catholigion<br>Hafan Cymru – ymweliad blynyddol |
| Nodweddion perthnasoedd diogel a'r rhai a all arwain at gamdriniaeth | Drama<br><br><br><br>Addysg Grefyddol<br>ABCh | 8<br><br><br><br>9<br>9 | Cyfoesi chwedl "Morwyn Llyn y Fan Fach" mewn perfformiadau gorffenedig. Trafod y cymeriadau a sut mae taro rywun yn gallu arwain at gosb bersonol a thristwch.<br>Tor-briodas a rhesymau dros ysgariad<br>Hafan Cymru – ymweliad blynyddol |
| Rol priodas, pwysigrwydd perthynas sefydlog a chyfrifoldebau rhieni | Addysg Grefyddol | 9 | Credoau Cristnogion ar briodas, godineb,ysgariad a rhyw cyn priodas. Priodas Iddewiaeth a Christnogaeth. |
| Emosiynau a theimladau negyddol | Drama<br><br><br><br>Addysg Grefyddol | 8<br><br><br><br>9 | Pecyn 'Synhwyrau ac emosiynau"- Trafod emosiynau, eu pwysigrwydd a sut y gall eu dangos trwy fynegiant yr wyneb a'r corff ddwysau sgiliau perfformio a rhyngweithio ar lwyfan.<br>Teimladau negyddol sy'n arwain at ragfarn a chasineb hiliol: Dangos y Cerdyn Coch |
| Y manteision o gael mynediad i wahanol ffynonellau o wybodaeth, cymorth a chyngor | ABCh | 9 | Diwrnod 'A yw'n deg?' a diwrnod 'Dewisiadau' |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **3. Datblygiad moesol ac ysbrydol** | | | |
| Y gweithredoedd sy'n dda ac sy'n ddrwg yn eu barn hwy, a'r problemau moesol sy'n gysylltiedig a sefyllfaoedd bywyd | Daearyddiaeth<br><br>Drama<br>Addysg Grefyddol | 8<br><br>CA3<br>8 | Y disgyblion yn cael y profiad o brofi bywydau llafurwyr plant yn y wers 'Bagiau papur'.<br>Holl becynnau gwaith CA3 yn delio ag elfennau.<br>Y Deg Gorchymyn/ y Rheol Aur/ y Gorchymyn Mawr |
| Dangos sensitifrwydd i werthoedd a chredoau pobl eraill | Addysg Grefyddol | CA3 | Trwy'r pwnc yn gyffredinol. |
| **4. Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes** | | | |
| Gwerthfawrogi eu cyflawniadau gan drafod eu doniau a'u diddordebau er mwyn gwneud dewisiadau gwybodus i'w dyfodol | Daearyddiaeth<br><br>Drama | 7<br><br>CA3 | Awdit 'Steiliau Dysgu' ar ddechrau Bl7 i weld pa fath o ddysgwyr ydynt.<br>Wedi pob perfffformiad a asesir, mae gwerthusiad adeiladol ar lafar, wrth gwrs marc am sgiliau perfformio yn ogystal â lefel am ymdrech, hyder ac ymroddiad. Defnyddir strategaeth 2 seren a dymuniad gan geisio magu hunan hyder mewn syniadau, bod yn greadigol yn ogystal a'r sgliau perfformio. |
| Deall canlyniadau economaidd a moesegol y penderfyniadau ariannol personol y maent yn eu gwneud fel defnyddwyr e.e. Masnach Deg | Daearyddiaeth<br><br><br><br><br>Addysg Grefyddol | 8<br><br><br><br><br>9 | Gweithio o fewn parau i gwblhau llyfryn gwybodaeth ar y thema 'Daearyddiaeth Siocled'. Mae Masnach Deg yn cael sylw yma.<br>Mae'r disgyblion hefyd yn cael y profiad o brofi bywydau llafurwyr plant yn y wers 'Bagiau papur'.<br>Diwrnod Masnach Deg ym mis Gorffennaf yn flynyddol drwy arweinid y ParchTom Defis |
| Sut i reoli eu materion ariannol personol yn fedrus a sylweddoli bod cynilo arian yn arwain at annibynniaeth ariannol. | Addysg Grefyddol<br>ABCh | 9<br><br>9 | Credoau Cristnogol ac Iddewig ar y ffordd y dylir trin arian<br>Addysg ariannol – trafod cyfrifon banc, cyflog, llog a bancio ar-lein |
| **5.Datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang** | | | |
| Datblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb personol dros faterion lleol a byd-eang e.e. gwarchod bioamrywiaeth | Daearyddiaeth<br><br><br><br>Addysg Grefyddol<br>ABCh | 7<br><br>8<br><br>9<br>8 | Disgyblion yn cynnig datrysiadau i ddiogelu'r goedwig law mewn modd cynaliadwy.<br>Disgyblion yn cynnig datrysiadau cynaliadwy i effeithiau twristiaeth ym Mallorca ac effeithiau llafur plant.<br>Ein Byd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Datblygu cynaliadw a dinasyddiaeth fyd eang – uned arbennig |
| Deall materion allweddol datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang e.e. newid hinsawdd | Daearyddiaeth<br><br><br><br><br><br><br>Addysg Grefyddol | 7<br><br>8<br><br>9<br><br><br>9 | Disgyblion yn cynnig datrysiadau i ddiogelu'r goedwig law mewn modd cynaliadwy.<br>Disgyblion yn cynnig datrysiadau cynaliadwy i effeithiau twristiaeth ym Mallorca ac effeithiau llafur plant.<br>Ymholiad 'Gweithio gydag Eraill' ar Gynhesu Byd-eang. Maent yn ystyried y dulliau o leihau effeithiau cynhesu byd-eang.<br>Ein Byd: Damcaniaethau am y Creu |
| Deall materion byd-eang sy'n bygwth y blaned | Addysg Grefyddol<br>Daearyddiaeth | 9<br>7<br><br>8<br><br>9 | Stiwardiaeth<br>Disgyblion yn cynnig datrysiadau i ddiogelu'r goedwig law mewn modd cynaliadwy.<br>Disgyblion yn cynnig datrysiadau cynaliadwy i effeithiau twristiaeth ym Mallorca ac effeithiau llafur plant.<br>Ymholiad 'Gweithio gydag Eraill' ar Gynhesu Byd-eang. Maent yn ystyried y dulliau o leihau effeithiau cynhesu byd-eang. |
| Sut y gall safbwyntiau gwahanol ar faterion byd-eang esgor ar wrthdaro | Daearyddiaeth<br><br><br><br><br><br><br><br><br>Addysg Grefyddol | 7<br><br>8<br><br>9<br><br><br><br><br>9 | Disgyblion yn trafod safbwyntiau y grwpiau sydd o blaid ac yn erbyn datgoedwigo'r goedwig law.<br>Disgyblion yn trafod safbwyntiau'r grwpiau sydd o blaid ac yn erbyn twristiaeth ym Mallorca.<br>Disgyblion yn trafod effeithiau peryglon naturiol e.e. tsunami ar grwpiau gwahanol o bobl. Hefyd maent yn ystyried pwy ar ynysoedd y Maldives sy'n debygol o gael eu heffeithio gan lefel y môr yn codi o ganlyniad i newid hinsawdd.<br>Datganiadau ar y Byd perffaith: trafodaeth a barn |